# Cenn@d

IONAWR 8 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 202


## Y Nadolig diflanedig? Efallai ddim!

Yn rhifyn 197 o *Cenn@d*, ar 4 Rhagfyr, cafwyd erthygl gan Aled Davies yn mynegi pryder bod elfen Gristnogol yr ŵyl yn prysur ddiflannu o fewn y gymdeithas seciwlar rydyn ni bellach yn byw ynddi. Fodd bynnag, mae'n dda adrodd am rai enghreifftiau y sylwodd arnynt mewn ymweliad ag ambell dref yng nghanolbarth Lloegr wythnos cyn y Nadolig. Braf oedd gweld golygfa'r Geni mewn rhai mannau cyhoeddus, yn ogystal ag eglwysi gweithgar yng nghanol trefi yn rhannu neges a gobaith geni Iesu. Dyma ambell sylw pellach felly ar 'Y Nadolig Diflanedig'.











Wythnos cyn y Nadolig fe gawsom gyfle i ddianc am ychydig nosweithiau o hamdden, gan leoli ein hunain yn Stratford ac ymweld ag ambell dref gyfagos. Tra oedden ni yno, fe wnaethon ni gadw llygad barcud am olygfeydd o'r stabl neu dystiolaeth Gristnogol mewn perthynas â gŵyl y Geni. Ar y dde, ceir pedwar llun – pob un â'i stori a'i neges:

Mewn un llun gwelir ffenest siop deganau'r gadwyn The Entertainer. Ynddi ceir golygfa 3D helaeth o stori'r Geni, a'r disgrifiad (yn Saesneg), 'Wedi'i ddarlunio yma mae hanes y Nadolig Cyntaf – lle rydym yn cofio'r rheswm dros yr ŵyl, sef genedigaeth Iesu Grist'. Roedd 149 o'r rhain wedi'u gosod ledled Prydain, ym mhob siop sy'n eiddo i'r gadwyn. Gweledigaeth y perchennog Gary Grant, sy'n Gristion brwdfrydig, yw hon, ac mae hefyd yn gweithredu polisi cadarn o beidio agor ei siopau ar y Sul. Nid yw chwaith yn caniatáu i unrhyw deganau treisgar fel gynnau a thanciau rhyfel gael eu gwerthu yn y siopau. Diolch am y 149 o olygfeydd a'u neges bwerus sydd i'w gweld yn glir mewn canolfannau siopa mawr ledled gwledydd Prydain, a diolch am gadernid ffydd y gwron busnes hwn.

Ar begwn arall y sbectrwm gwelir llun hefyd o siop fferins fach draddodiadol, gyda phedair golygfa o'r Geni yn ffenest y siop. Fe es i mewn i sgwrsio â'r perchnogion, a chael sgwrs hyfryd gyda hwy wrth iddynt sôn am eu ffydd. Maent wrth eu bodd yn gosod y golygfeydd hyn o'r Geni yn ffenest y siop bob blwyddyn yn y gobaith o weld pobl yn dod i mewn am sgwrs.

Gwelir llun hefyd o ffair Nadolig Almaenaidd yn Coventry, a than yr olwyn fawr braf oedd gweld golygfa'r preseb mewn bocs gwydr yn ffocws i'r ffair. Yn yr un modd roedd Clwb Rotari Caerwrangon wedi gosod golygfa'r Geni o flaen neuadd y dref. Diolch iddynt am hynny, o gofio bod llawer cyngor tref erbyn hyn yn orawyddus i osgoi unrhyw gyfeiriad o gwbl at stori'r Geni.

Yn yr un modd, diolch am bob un eglwys a wnaeth ymdrech i rannu posteri, gosod goleuadau a golygfeydd o'r Geni o flaen eu heglwysi. Braf oedd gweld eglwysi wedi'u goleuo a nifer hefyd yn agored, yn barod i groesawu ymwelwyr i mewn am baned a sgwrs. Yn yr un modd, wedi dychwelyd adref, braf oedd derbyn lluniau gan gapeli ar hyd a lled Cymru, o ddramâu'r Geni a gwasanaethau'r Nadolig. Diolch am dystiolaeth y plant wrth iddynt rannu hanes geni Iesu â'n cynulleidfaoedd ffyddlon.

**Cofiwch: os oes gennych chi lun i'w rannu, gwnewch hynny erbyn 13 Ionawr fan bellaf, os gwelwch yn dda, fel y byddwn yn gallu cyhoeddi unrhyw luniau yn rhifyn yr wythnos nesaf, gan gloi pen y mwdwl ar adrodd am gyfnod y Nadolig.**


Plant ysgolion Sul ledled Cymru'n cyflwyno stori'r Nadolig
Tudalen 2

O Gefn Gwlad
Tywyllwch a goleuni
Tudalen 5

Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
*Conclave*
Tudalen 8